



## **RHIANT LYWODRAETHWYR: FFEIL FFEITHIAU 02/05 (Adolygiad 2)**

- **YN CAEL** eu hethol fel cynrychiolwyr buddiannau rhieni disgyblion. Ond nid yw rhiant lywodraethwyr yn ddirprwyon i rieni;
- **YN CAEL** eu hethol i wasanaethau am 4 blynedd. Nid oes rhaid i riant lywodraethwyr ymddiswyddo os yw eu plentyn yn gadael yr ysgol yn ystod eu cyfnod mewn swydd, er y gallant wneud hynny os ydynt eisiau;
- **YN CAEL** hawl i ymarfer yr un pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau â llywodraethwyr eraill ac mae ganddynt yr un hawliau â llywodraethwyr eraill;
- **YN** gategori penodol o lywodraethwr ac fel cynrychiolwyr etholedig, maent mewn sefyllfa dda i ddeall anghenion a safbwynt rhieni. Mae hyn yn gymorth i wella dealltwriaeth y corff llywodraethu o'i rôl;
- **YN** cael eu hethol gan rieni a dylent gadw mewn cof fuddiannau rhieni a disgyblion wrth gyfrannu at fusnes y corff llywodraethu;
- **MAE'N** ofynnol iddynt, fel llywodraethwyr eraill, , i ymarfer eu barn gorau eu hunain wrth gyfrannu at benderfyniadau'r corff llywodraethu;
- **MAENT** yn gymwys i gael eu datgymhwyso rhag gorffen eu tymor mewn swydd os ydynt yn methu â mynychu cyfarfodydd corff llywodraethu am dros 6 mis heb ganiatâd y corff llywodraethu. Gellir gwahardd rhiant lywodraethwyr hefyd am hyd at chwe mis am y rhesymau a nodir yn y Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005\*.
- **NI ALL** y rhieni y maent yn eu cynrychioli eu gorfodi i gefnogi safbwynt neilltuol y mae'r rhiant lywodraethwr yn anghytuno ag ef;
- **NI ALLANT**, tra'n adrodd yn ôl i rieni ar ôl cyfarfod, ddatgelu manylion sydd yn annhebygol o gael eu cofnodi yn y cofnodion, hyd yn oed os yw eu hadroddiad yn ymwneud â materion nad ydynt wedi eu pennu yn gyfrinachol gan y corff llywodraethu;
- **NI ALLANT**, fel pob categori arall o lywodraethwyr, weithredu yn unigol oni bai fod tasg benodol wedi ei dyrannu'n ffurfiol iddynt gan y corff llywodraethu, yn rhoi pŵer i'r llywodraethwr unigol weithredu ar ei ran;
- **NI ALLANT**, fel gyda phob categori arall o lywodraethwyr, chwarae rhan ym mhenderfyniad y corff llywodraethu pan fo ganddynt fuddiant personol ac/neu fuddiant ariannol yng nghanlyniad y penderfyniad hwnnw;
- **NI ALL** corff y rhieni na'r corff llywodraethu gael gwared ohonynt o'u swydd cyn iddynt gwblhau eu tymor mewn swydd;
- **NI ALLANT** gynnig eu hunain ar gyfer eu haillethol fel rhiant lywodraethwr os nad yw eu plentyn bellach wedi cofrestru yn yr ysgol

Gall y corff llywodraethu mewn rhai amgylchiadau fel yr amlinellir yn y rheoliadau\*, benodi rhiant lywodraethwyr Cofiwch, fel pob llywodraethwr, gall rhiant lywodraethwyr eiwa oddi wrth hyfforddiant. Gellir cael cyngor a gwybodaeth gan eich swyddfa cefnogi llywodraethwyr yn yr AALI ac o Linell Gymorth Llywodraethwyr Cymru 0845 6020100.

Deunydd cyfeirio hanfodol i riant lywodraethwyr:  
*Canllaw Llywodraethwyr Ysgolion i'r Gyfraith, Llawlyfr Llywodraethwyr Ysgolion*  
*\*Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005*  
*Egwyddorion Ymddygiad Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru*